

Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Awst 2017

Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Teitl: Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg o ganlyniad i'r Polisi Adnoddau Naturiol.	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad (I'w lenwi gan Uned y Gymraeg):																
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen::	Leanne Fraser																
Dyddiad:	Awst 2017																
Arweinydd polisi:	Emily Finney / Alan Storer																
Manylion cyswllt:	Uned Ymadael â'r UE a'r Strategaeth, Parc Cathays (CP2) Rhif ffôn: 030000256470																
Math o Raglen/Prosiect <table style="width: 100%; border: none;"> <tr> <td style="width: 50%; border: none;"><input checked="" type="checkbox"/> Polisi</td> <td style="width: 50%; border: none;"><input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen</td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Deddfwriaeth</td> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad</td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Grant</td> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Gwasanaethau</td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Newid busnes</td> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Contractau, tendrau</td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Seilwaith</td> <td></td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf</td> <td></td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> TGCh</td> <td></td> </tr> <tr> <td style="border: none;"><input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)</td> <td></td> </tr> </table>		<input checked="" type="checkbox"/> Polisi	<input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen	<input type="checkbox"/> Deddfwriaeth	<input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad	<input type="checkbox"/> Grant	<input type="checkbox"/> Gwasanaethau	<input type="checkbox"/> Newid busnes	<input type="checkbox"/> Contractau, tendrau	<input type="checkbox"/> Seilwaith		<input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf		<input type="checkbox"/> TGCh		<input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)	
<input checked="" type="checkbox"/> Polisi	<input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen																
<input type="checkbox"/> Deddfwriaeth	<input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad																
<input type="checkbox"/> Grant	<input type="checkbox"/> Gwasanaethau																
<input type="checkbox"/> Newid busnes	<input type="checkbox"/> Contractau, tendrau																
<input type="checkbox"/> Seilwaith																	
<input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf																	
<input type="checkbox"/> TGCh																	
<input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)																	
<p>1. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn un o ofynion statudol Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol iddi nodi polisiâu Gweinidogion Cymru ar gyfer cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a hefyd nodi'r risgiau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys yr hyn y dylid ei wneud o ran bioamrywiaeth a newid hinsawdd. Yn ôl y Ddeddf mae hefyd yn ofynnol bod y Polisi Adnoddau naturiol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu trwy gymhwysu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Y nod yw cyhoeddi'r Polisi Adnoddau Naturiol ym mis Mai 2017. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddi i ben ar 13 Chwefror 2017. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cytuno yn flaenorol i'r dyddiad terfyn statudol, 21 Mawrth 2017, gael ei ymestyn i sicrhau bod y ddogfen yn ymateb yn llawn i'r dull ymgysylltu a ddefnyddir i hysbysu datblygiad y polisi trwy ein dulliau newydd o weithio.</p> <p>2. Wrth ddatblygu'r polisi, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth hefyd i Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n cysylltu ein hadnoddau naturiol â llesiant drwy amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p>																	
Costau: Beth yw cost oes gyfan ragamcanol y rhaglen/prosiect? Oes yw'n llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).																	
Dan £25k	£25k - £49k	£50 - £249K	£250K - £1 miliwn	Dros £1 filiwn													
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>													

O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?

Neilltuwyd y costau am waith cyfieithu a chostau cysylltiedig ar gyfer y dogfennau sy'n ymwneud â Deddf yr Amgylchedd, y gofynion cysylltiedig (mae hyn yn cynnwys y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol) a gweithgareddau cyfathrebu sydd wedi cynnwys digwyddiadau a chyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?

Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:

- Datganiad anstatudol y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd yn ystod gwanwyn 2015 (i gadarnhau blaenoriaethau cyn i'r Bil ddod i rym ac i hysbysu gwaith craffu'r Bil)
- Cyflwynwyd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ym mis Mai 2016, ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016.
- Cyhoeddir y Polisi Adnoddau Naturiol cyntaf ym mis Awst 2017, a bydd y datganiadau ardal yn cael eu paratoi o ganol/diwedd 2017 ymlaen.

CAM 1: CYNLLUNIO**Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol ar gyfer 'llwyddiant'?**

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn gymwys i'r holl adnoddau naturiol a sut yr ydym yn eu defnyddio a'u rheoli i fodloni'r amcan a bennir gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) i gynnal a gwella'r ecosystemau cydnerthedd a'r buddion y maent yn eu darparu i fodloni anghenion y cenedlaethau presennol heb amharu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol a chyfrannu ar draws yr amcanion llesian'. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn canolbwyntio ar reolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol Cymru, sydd yn ei dro yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ar draws Llywodraeth Cymru, mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod yr amcanion yn y Rhaglen Lywodraethu yn cael eu cyflawni trwy nodi'r meysydd allweddol lle gall adnoddau naturiol Cymru barhau i gefnogi ffyniant Cymru a gwireddu'r cyfleoedd sylweddol a ddarperir. Bydd hyn yn sicrhau cenedl ddiogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol, sy'n dysgu, ac sy'n unedig a chysylltiedig.

O fewn y portffolio Amgylchedd a Materion Gwledig, mae'r Polisi Adnoddau Naturiol hefyd yn bwysig yng nghyd-destun ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. O ystyried y goblygiadau dwys i'r polisi cyfredol, y fframwaith cyfreithiol ac ariannol a'r angen i sicrhau bod Cymru yn elwa o'r cyfleoedd sylweddol y gall rheoli ein hadnoddau naturiol yn well ei ddarparu ar y cyd â mynd i'r afael â'r heriau amlwg yr ydym yn eu hwynebu, mae gan y Polisi Adnoddau naturiol swyddogaeth allweddol yn

rhan o'r ymateb Adrannol.

O dan y ddeddfwriaeth, bydd Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru yn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r polisi ar lefel leol, gan gynnwys darparu gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Llesiant o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol roi ystyriaeth i'r dystiolaeth yn y Datganiadau Ardal.

Pa ddewisiadau polisi a ystyriwyd?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Mae Rhan 1 adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi, cyhoeddi a gweithredu Polisi Adnoddau Naturiol Cymru.

Mae'n rhaid i'r polisi nodi yr hyn y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn flaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a'u polisiâu cyffredinol a phenodol ar gyfer cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn gysylltiedig â Chymru. Mae'n rhaid i hyn gynnwys yr hyn yr ystyriant y dylid ei wneud ynghylch newid hinsawdd a bioamrywiaeth.

Pan fydd yn gyflawn, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru o dan adran 9 (4) gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol a hefyd i annog eraill i gymryd camau o'r fath.

Dylid fod wedi cyhoeddi'r Polisi Adnoddau Naturiol cenedlaethol cyntaf cyn pen 10 mis ar ôl i adran 9 ddod i rym (21 Mai 2016). Fodd bynnag, gohiriwyd cyhoeddi'r Polisi Adnoddau Naturiol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig er mwyn ystyried ymatebion yr ymgynghoriad yn llawn yn unol â'r dulliau newydd o weithio ar gyfer ymgysylltu a chydweithio, ac er mwyn ystyried trafodaeth y Cabinet.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg – iaith fyw: iaith byw?

Ydy

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. Siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg i unrhyw un o'r cynigion yn y Polisi Adnoddau Naturiol.

Nodwyd yr effeithiau cadarnhaol posibl canlynol yn gysylltiedig â Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Cadarnhaol

Trwy ddefnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn effeithlon yn yr hirdymor ar lefel genedlaethol a lleol, mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn gyfle i wireddu nifer o effeithiau cadarnhaol ar gymunedau Cymru gyda'r nod o sicrhau ffyniant Cymru yn y dyfodol. Bydd gan lawer o'r buddion hyn yr un effaith ar gymunedau sy'n siarad Cymraeg a chymunedau nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn cefnogi gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 trwy ddarparu dull integredig o sut y gall rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy helpu i gyflawni'r amcanion llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn nodi'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, ac felly'n sicrhau bod ein hecosystemau yn gydnerth ac yn gallu darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol. Bydd hyn yn yr hirdymor yn arwain at oes hir i'r gwasanaethau hynny, y mae llawer o'n gweithgareddau cymdeithasol ac economaidd yn dibynnu arnynt. Enghreifftiau o hyn yw ceisiadau rheoli tir a defnyddio tir, diwydiannau echdynnol a phrif ddiwydiannau. Yn benodol i'r Gymraeg, mae ystadegau'n dangos bod 29.5% o'r bobl a gyflogir yn y diwydiannau amaeth, ynni a dŵr yn siaradwyr Cymraeg (Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl Diwydiant - Cyfrifiad 2011). Mae'r diwydiannau amaeth, ynni a dŵr yn tueddu i fod yn wledig, gyda chyfran uwch wedi eu lleoli yn y fro Gymraeg. Disgwylir y bydd gwella ein dulliau o reoli ein hadnoddau naturiol yn cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd y diwydiannau hyn ac yn darparu rhagor o gyfleoedd twf, gan felly gyfrannu yn anuniongyrchol at y defnydd o'r Gymraeg yn y cymunedau hyn.
- Bydd datganiadau ardal yn gweithredu blaenoriaethau a chyfleoedd polisi cenedlaethol ar gyfer ein hadnoddau naturiol mewn ardaloedd lleol - bydd hyn yn sicrhau blaenoriaethau a chyfleoedd â mwy o bwyslais ac ar raddfa briodol. Bydd datganiadau ardal yn seiliedig ar ddata cyfredol a chadarn a ddarparwyd gan yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Yn ymarferol, bydd angen i ddatblygiad y datganiadau ardal fod wedi eu hysbysu gan anghenion penodol y gymuned leol berthnasol. Mae'n bosibl y bydd datganiadau ardal yn dod o hyn i gyfleoedd newydd, er enghraifft, taliadau am wasanaethau ecosystem neu atebion naturiol i leddfu llifogydd neu storio carbon. Yn fwy penodol, gallai cymunedau Cymraeg sy'n elwa o'r cyfleoedd cymdeithasol ac amgylcheddol a nodwyd yn y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol weld mwy o lewyrch drwy greu swyddi lleol, cynaliadwy sydd wedi'u targedu. Byddai hynny'n lleihau nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n mudo i ganolfannau economaidd fel Caerdydd neu ymhellach, fel Bryste neu Lundain. Gallai hyn helpu i wrthdroi nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cael eu colli o'r fro Gymraeg yn ogystal â lleihau nifer net y siaradwyr Cymraeg rhugl o Gymru. Mae 3 chynllun treialu ar sail ardal yn cael eu cynnal gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ac mae un o'r rheini, sef Dyfi, yn y fro Gymraeg.
- Gall rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gael effaith gadarnhaol ar gydnerthedd Cymru i newid hinsawdd ac effeithiau newid hinsawdd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau Cymraeg. Gall y cynigion helpu i ddod o hyd i ddulliau newydd o liniaru ac addasu i newid hinsawdd trwy: (i) dod o hyd i ffyrdd newydd o wella cydnerthedd ecosystemau ac felly'r gallu i addasu i bwysau hinsawdd; (ii) gwella gwasanaethau i storio carbon neu leddfu llifogydd.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?
Gan mai dyma'r polisi strategol cenedlaethol ar gyfer adnoddau naturiol, ystyriwyd yr holl randdeiliaid yn ôl y gofyn drwy gydol y gwaith i ddatblygu'r polisi.
Os na chafodd asesiad ei gwblhau, neu os na chanfuwyd unrhyw effeithiau, rhowch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod. (Mae'n bosibl y defnyddir hyn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)
Amherthnasol
Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau sy'n siarad Cymraeg, nodi rhanddeiliaid neu restr ymgynghori, angen cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?
Cysylltwyd ag Uned y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru am ragor o gyngor. Caiff y Polisi Adnoddau Naturiol ei gyhoeddi'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly hefyd yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.
CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU
<u>Crynodeb o'r Asesiad Effaith</u>
<u>Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a roddwyd.</u>
Effeithiau cadarnhaol:
<p>Er na chynlluniwyd y Polisi Adnoddau Naturiol yn benodol i fynd i'r afael â materion y Gymraeg, nodwyd pedair effaith gadarnhaol trwy reoli adnoddau naturiol, sef:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol yn cefnogi'r gwaith o weithredu saith amcan llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn cynnwys y nod o sicrhau "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu". 2. Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol yn nodi'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru a fydd yn arwain at ecosystemau mwy cadarn. Bydd hyn o fudd i gymunedau ledled Cymru gan arwain at ffyniant, budd cymdeithasol, iechyd a lles hirdymor. 3. Bydd datganiadau ardal yn hwyluso dull lleol o reoli adnoddau naturiol ac yn darparu atebion wedi'u targedu yn seiliedig ar broffil economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal benodol. Dylai hyn arwain at gymunedau Cymraeg mwy cydnerth sy'n cael budd o'r cyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a nodwyd ac a allai, yn eu tro, gael effaith gadarnhaol ar nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n mudo o rai ardaloedd o'r fro Gymraeg.

4. Bydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cefnogi'r gwaith o addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd gan arwain at gymunedau mwy cydnerth a fydd o fudd i gymunedau Cymraeg yn yr un modd ag a nodwyd yn effaith 3.

Effeithiau negyddol:

Ni nodwyd effeithiau negyddol.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant, sy'n cynnwys "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Mae 29.5% o'r bobl a gyflogir yn y diwydiannau amaeth, ynni a dŵr yn siarad Cymraeg (Y gallu i siarad Cymraeg fesul Diwydiant – Cyfrifiad 2011)

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os caiff y polisi hwn ei ddatblygu ar sail yr asesiad o'r effaith/asesiad risg?

Cadarnhaol:
Negyddol:
Niwtral:
Anhysbys:

Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad

- | | |
|--|-------------------------------------|
| 1. Dim newid sylweddol | <input checked="" type="checkbox"/> |
| 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | <input type="checkbox"/> |
| 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | <input type="checkbox"/> |
| 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | <input type="checkbox"/> |

Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:

Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:

Amherthnasol.

Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau yr ydych yn dymuno eu gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ochr yn ochr â'r Polisi Adnoddau Naturiol.

CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau yr ydych chi wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?

Amherthnasol – ni chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Sut y byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Amherthnasol.

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Amherthnasol.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

Dim.

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

****Dileer fel y bo'n briodol:***

***Mae'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, cafodd y diwygiadau a'r camau priodol eu rhoi ar waith.**

Enw:

Adran:

Dyddiad(au):

Llofnod:
Dyddiadau Adolygu:

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL	
<p>Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol yn ystod oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.</p>	
Llofnod (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad
Llofnod (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Adolygu
Llofnod (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnod (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu